**TAR Addysg Gorfforol 2019-20**

Annwyl athro dan hyfforddiant

Yn gyntaf, llongyfarchiadau ar lwyddo i ennill lle ar y rhaglen TAR Addysg Gorfforol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi. Isod, mae rhywfaint o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Bydd y cwrs yn dechrau ar 9 Mehefin 2019. Gallai fod angen i ni ddilyn amserlen ychydig yn llai confensiynol am y pythefnos cyntaf, oherwydd bod yr ail wythnos yn cyd-daro â chyfnod dychwelyd y myfyrwyr israddedig a bydd pwysau ar gyfleusterau chwaraeon. Byddaf yn ceisio bod mor synhwyrol ag y gallaf wrth drefnu'r amserlen, ond roeddwn am i chi wybod y gallai fod angen i mi ddefnyddio diwrnodau gwaith hwy.

I baratoi ar gyfer y cwrs, defnyddiwch dymor yr haf i ymweld ag ysgolion uwchradd os nad yw'ch profiad ysgol yn helaeth. Bydd disgwyl i chi addysgu amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd yn ystod tymor yr haf. Mae De Cymru'n rhoi llawer o bwyslais o hyd ar weithgareddau cystadleuol ac, felly, os nad ydych o'r cefndir hwn, bydd angen i chi ddatblygu'r maes hwn cyn mis Medi. Fel y gwyddoch, mis Medi 2019 yw dechrau'r pontio i Gwricwlwm Cenedlaethol newydd, sy'n dod i rym yn swyddogol ym mis Medi 2022. O ganlyniad i hyn, byddwch yn gweld amrywiaeth o arferion yn yr ysgolion lle cewch eich gosod. Mewn unrhyw strwythur, bydd disgwyl i chi addysgu amrywiaeth o weithgareddau, felly gwnewch ychydig o ymchwil i'r meysydd gweithgarwch sy'n anghyfarwydd i chi. Hefyd, awgrymaf eich bod chi'n lawrlwytho ac yn ymgyfarwyddo â'r cwricwlwm drafft newydd i Gymru (gweler y ddolen isod), yna, yn benodol, cynnwys maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLlRh), a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Byddai ymgyfarwyddo â rhai o feysydd llafur arholiadau CBAC yn ddefnyddiol os nad oes gennych ryw lawer o brofiad o'r math hwn o addysgu, yn enwedig BTEC, TGAU ac UG/A2. Mae diffyg profiad o'r agwedd hon gan y mwyafrif o athrawon dan hyfforddiant.

Dolen i Gwricwlwm 2022

- https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022

Awgrymaf eich bod yn cael gafael ar ddwy gyfrol:

- Bailey, R. (2010) *Physical Education for Learning. A guide for Secondary Schools. S*econdly, London: Continuum.
- Capel, S. and Whitehead, M (2015) *Learning to Teach Physical Education in Secondary School* (4th Eds) Oxon: Routledge.

Mae'r ddwy yn gyfrolau syml, darllenadwy sy'n cwmpasu sawl agwedd y byddwch yn eu harchwilio'n fanylach y flwyddyn nesaf.

Rwyf wedi cael nifer o negeseuon e-bost ynghylch lleoliadau ysgol. Deallaf fod mwy o fyfyrwyr yn bwriadu byw gartref a byddaf yn ceisio'ch gosod mewn ysgol sy'n bellter call o'ch cyfeiriad yn ystod y tymor. Rhaid i mi'ch rhybuddio nawr fod nifer yr ysgolion sydd ar gael i mi eu defnyddio wedi cael eu gostwng a bach iawn o ysgolion sydd gennyf i'r gorllewin i Ben-y-bont ar Ogwr. Yn anffodus, bydd adegau pan fydd angen gosod myfyrwyr ymhellach o gartref nag yr hoffem wneud. Nid yw bod heb gar yn golygu na fydd disgwyl i chi deithio'n bell gan ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Yn sgil ymgynghori â myfyrwyr TAR addysg gorfforol, rydym wedi adolygu'r cit sy'n ofynnol ac wedi penderfynu cwtogi'r rhestr. Gallwch ddewis prynu cit a bydd rhai dewisiadau o ran pris ac ansawdd. Nid yw'r cit sylfaenol yn costio mwy na £65, ond bydd cyfle i brynu mwy o git drwy wefan y darparwyr. Ni fydd yn ofynnol i chi brynu unrhyw beth cyn diwrnod cyntaf y cwrs, ond cofiwch y gall gymryd hyd at 4 wythnos i'r cit eich cyrraedd. Os byddwch yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg, gallwch ddewis cael eich brodwaith yn Gymraeg. Os byddwch am ddewis yr opsiwn hwn, bydd angen i chi wneud hynny'n glir wrth osod yr archeb. Mae eitemau i'w gweld trwy ddilyn y ddolen http://rhino- teamwear.com/store/school-universities/cardiff-met/pgce-pe?limit=all

Yn olaf, cadwch eich hun yn heini ac yn iach yn ystod yr haf; mae'n flwyddyn ddwys iawn ac mae angen i chi ddechrau'r cwrs yn gryf yn gorfforol ac yn feddyliol. Mae'n flwyddyn wych hefyd!

Edrychaf ymlaen at gyfarfod a gweithio gyda chi oll eto. Byddwch cystal â chadarnhau eich bod yn dechrau gyda ni ym mis Medi trwy anfon e-bost ataf ar fdiffey@cardiffmet.ac.uk

Fiona Diffey – Arweinydd y Rhaglen